**MAWRTH AC EBRILL 2025**

**YSGOL PENNAL**

# LLEISIAU PENNAL

## DYDD GWYL DDEWI



Dathlwyd Dydd Gwyl Dewi ar Fawrth y 3ydd eleni. “Rydym ni wedi mwynhau cael perfformio o flaen ein ffrindiau a gwrando ar eraill yn canu cyn mynd ar lwyfan mawr Eisteddfod Yr Urdd yn Ysgol Uwchradd Tywyn. Ar ôl canu, cawsom ni ddarn bach o fara brith a chacen gri. Buaswn i wedi hoffi mwy, ond roedd raid rhannu efo’r plant mawr i fod yn dêg.”
Fel ac a ddywedwyd gan Silyn Breese













**MAWRTH AC EBRILL 2025**

# YSGOL PENNAL

## GORYMDAITH GWYL DDEWI

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Orymdaith Gŵyl Dewi llwyddiannus yn Nywyn dydd Gwener cyn hanner tymor! Er gwaetha'r tywydd roedd yr awyrgylch, y cyffro a'r bwrlwm yn arbennig o gynnes, a'r plant i weld yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn.
Diolch i aelodau Cwmni'r Fran Wen am gynnal y gweithdai i ysbrydoli'r dysgwyr cynradd ar y thema 'Tirwedd'.
Ysgrifennwyd gan ddisgyblion 7-11 oed













**MAWRTH AC EBRILL 2025**

**YSGOL PENNAL**

# DIWRNOD Y LLYFR

Ar Ddiwrnod y llyfr eleni, roedd y disgyblion wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr, gwisg ffansi neu mewn dillad cyfforddus. Yn ystod y dydd roedd athrawon wedi trefnu gweithgareddau darllen. Cafodd disgyblion dosbarth 7-11 oed fod yn rhan o sesiwn byw rhithiol wedi ei drefnu gan ‘Darllen Co’ yn ystod y bore. Roedd cwis wedi ei drefnu yn seiliedig ar y llyfr ‘Gwyrdd Ein Byd’ gan Duncan Brown a roedd tua 90 o ysgolion ar y sgrin. Siaradodd Duncan Brown, yr awdur efo ni ar y sgrin am ei waith fel awdur ac am ei lyfr.
Ysgrifennwyd gan ddisgyblion 7-11 oed



# TY TYRCHU SYCHAN

Diolch yn fawr iawn i Mr Barry Griffiths a Jack Johnson Griffiths am roi eu hamser a chyfrannu adnoddau gwerthfawr iawn i droi ein syniad ni, y Cyngor Dosbarth 3-7oed yn ‘go iawn’! Rydym wedi cael agoriad swyddogol i ‘Ty Tyrchu Sychan’ ac wedi ei lenwi gyda tywod! Rydym wrth ein boddau. Fel ac a ddywedwyd gan y Cyngor Dosbarth 3-7oed.








MAWRTH AC EBRILL 2025

YSGOL PENNAL

# EISTEDDFOD YR URDD CYLCH DYSYNNI

**Unawd Bl 2 ac iau**
1af Silyn Breese

**Unawd Bl 3 a 4**
2il Curig Breese
3ydd Melys Morus-Baird

**Unawd Blwyddyn 5 a 6**
1af Zahra El Mliji

**Llefaru Bl 2 ac iau**
1af Gruff Jones
2il Silyn Breese
3ydd Amy Turner

**Llefaru Bl 3 a 4**
1af Curig Breese
2il Angharad Evans
3ydd Bleddyn Frohawk

**Llefaru Bl 5 a 6**
1af Zahra El Mliji

**Unawd Gitar Bl6 ac iau**
1af Anya Crockford


**Parti Canu**
3ydd - Parti Pennal

**Deuawd Bl6 ac iau**
2il Grace Hussein a Zahra El Mliji

**Unawd Alaw Werin Bl 6 ac iau**
1af Zahra El Mliji,
2il Curig Breese,
3ydd Bleddyn Frohawk

**Llongyfarchiadau mawr i disgyblon y Ffederasiwn fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Nhywyn yn mis Mawrth**
















MAWRTH AC EBRILL 2025

YSGOL PENNAL

# GWEITHDY CYFANSODDI



Roedd plant Ysgol Pennal wrth eu boddau yn cael sesiynau cerdd gyda phrif leisydd band Candelas, Osian Wyn Williams. Bum wrthi yn dod i adnabod offerynnau cerdd yn well ac yn cyfansoddi can 'Gwreiddiau' ein hunain am Bennal. Byddwn yn perfformio'r gân yn gyngerdd Pasg Ysgol Pennal ar y 10fed o Ebrill. Dyma hi'r gân:

Gwreiddiau
Cytgan:
Mae Pennal llawn gwreiddiau
Llawn hwyl a'n hanes ni
Pawb yma'n gyfeillgar
Cyd-fyw mewn un egni.

Mae'r coed a'r dail mor bwysig
Wedi angori yn ein tir
O'r gwreiddiau cawn fwydydd
i'n cadw ni yn fyw
Heb deulu nid oes gwreiddiau
i'n cadw ni yn gryf
A ffrindiau fel canghennau
i'n dal ni a'n cysgodi

Mae Cymru fach llawn gwreiddiau
Mor gadarn, yma o hyd
Cenhinen i Gefn Caer
Mae Pennal mor bwysig i'r byd



# SESIWN CODI'R TO




Aeth disgyblion Blwyddyn 5 i Ysgol Uwchradd Tywyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddoriaeth band 'Codi'r Tô' wedi ei drefnu gan Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru yn Ysgol Uwchradd Tywyn.

**MAWRTH AC EBRILL 2025**

**YSGOL PENNAL**

# GWEITHDY GYDA MEI MAC

Bore dydd Gwener, 4ydd o Ebrill aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Ysgol Dyffryn Dulas i ymuno gyda Dosbarth 7-11 oed i gael gweithy creu cymeriadau a gwrthrychau cartwn gyda Mei Mac.




# GARDDIO





Rydym wedi bod yn gweithio'n gorfforol galed yn ystod ein sesiwn clwb garddio hefyd. Rydym ni wedi bod yn chwysu i dyllu pridd er mwyn lefelu'r ardd i ni gael creu cwrs rhwystrau efo planciau. Roedd ein calonnau yn cyflymu hefyd a'n wynebau yn goch! Mae pawb yn edrych ymlaen i'r cit gyrraedd felly bydd raid dal ati i wneud y tir yn fflat!
Fel ac a ddwedwyd gan Jack a Silyn.



# SESIYNAU MATHEMATEG UWCHRADD

YAr brynhawniau Gwener, mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn mynd i Ysgol Dyffryn Dulas i gael sesiwn Mathemateg gyda Mr Ethan Rogers (Athro Mathemateg Ysgol Uwchradd Tywyn). Mae hyn yn gymorth mawr i'r disgyblion ar gyfer y trosglwyddo.





# PC SION

Daeth PC Siôn i'n gweld ym Mhennal ar y 27ain o Fawrth. Roedd ganddo negeseuon pwysig i rannu gyda ni am fod yn ddiogel ar y we. Dysgom sut i greu'r cyfrineiriau fwyaf diogel phosib a pha lwyfannau sy'n ddiogel i ni eu defnyddio fel plant. Diolch yn fawr i chi PC Siôn.
Disgyblion Dosbarth 7-11 oed
Diolch yn fawr iawn i PC Sion am ddod nôl i Ysgol Pennal. Roedd yn neis ei weld eto! Dydyn ni ddim wedi ei weld ers talwm! Cawsom lot fawr o hwyl yn siarad am sut i gadw ein hunain yn ddiogel, pryd mae wir angen ffonio'r gwasanaethau brys a pha rifau i'w ffonio. Y rhifau pwysig ydi 999 a 101. Dangosodd P.C Sion ac Arrow i'r dosbarth sut i siarad ac ateb cwestiwn pan mae angen ffonio 999. Mae gwybod ein enw llawn a dysgu enw ein tŷ yn gallu helpu'r gwasanaethau brys i'n cadw yn ddiogel. Rydym ni wedi bod yn brysur yn dysgu dweud a sillafu ein enw llawn a'n cyfeiriad fel tasg ardal. Cafodd pawb yn y dosbarth dynnu ei lun yn gwisgo gwregys P.C Sion cyn iddo fynd, a chael stampio olion ein bysedd i fynd adref efo ni.
Fel ac a ddwedwyd gan Jack, Riley, Robin, Arrow, Amy, Zephyr a Harry.

# CYMRU'N ROCIO

Mae pob disgybl Blwyddyn 2 - Blwyddyn 6 y Ffederasiwn wedi cael enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer ymarfer lluosi a rhannu ar TT Rock stars. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 3-6 rhan yn y gystadleuaeth Cymru'n Rocio ar TTRS yn ystod 1af - 3ydd o Ebrill. Roedd 420 o ysgolion wedi cystadlu eleni. Roedd y Ffederasiwn yn safle 97 allan o 420 ysgol. Da iawn bawb am wneud ei gorau gyda'r tablau yn ystod y 3 diwrnod!



**MAWRTH AC EBRILL 2025**

**YSGOL PENNAL**

# E STEDDFOD

Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Pennal yn cystadlu yn yr E-Steddfod ar lein eto eleni. Daeth Ysgol Pennal yn ail yn yr E-Steddfod. Cafodd y rhieni fwynhau gwylio'r E-Steddfod o adref a roedd Aeron Pughe yn cyflwyno a Elin Haf yn beirniadu. Mi wnaeth y disgyblion fwynhau cymryd rhan a cafodd disgyblion yr ysgol gyfan fwynhau gwylio'r cystadlaethau yn ystod y dydd. Dyma'r canlyniadau ar gyfer cystadlaethau llwyfan a'r adran Gwaith Cartref.




**Dyma canlyniadau'r dydd**

**<u>Llefaru unigol</u>**
Amy 2il (Blwyddyn 1 a 2)
Angharad 2il (Blwyddyn 3 a 4)

**<u>Canu unigol</u>**
Silyn 1af (Blwyddyn 1 a 2)
Curig 1af (Blwyddyn 3 a 4)
Cali 3ydd (Blwyddyn 5 a 6)





Côr plant bach - 1af
Côr plant mawr - 2il

**<u>Celf</u>**
Meilir 1af (Meithrin a Derbyn)
Arrow 1af (Blwyddyn 1 a 2)
Angharad 1af (Blwyddyn 3 a 4)
Leafin 2il (Blwyddyn 5 a 6)



**<u>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</u>**
Meilir a Patrick 2il (Meithrin a Derbyn)
Amy 1af (Blwyddyn 1 a 2)
Hunter 1af (Blwyddyn 3 a 4)
Jesse 2il (Blwyddyn 5 a 6)



Canlyniadau Celf

Bl.3+4



# MAWRTH AC EBRILL 2025

# YSGOL PENNAL

# E STEDDFOD




**Datrys Problemau Mathemateg**
Efa 2il (Meithrin a Derbyn)
Amy 2il (Blwyddyn 1 a 2)
Iestyn 1af (Blwyddyn 3 a 4)
Jack 2il (Blwyddyn 5 a 6)

**TGCh/Graffeg Cyfrifiadurol**
Patrick 2il (Meithrin a Derbyn)
Jack 1af Blwyddyn 1 a 2
Melys 2il Blwyddyn 3 a 4
Jack 2il Blwyddyn 5 a 6






**Gwaith Ysgrifenedig Cymraeg**
Efa 2il(Meithrin a Derbyn)
Harry 1af (Blwyddyn 3 a 4)
Nia 2il (Blwyddyn 5 a 6)

**Gwaith Ysgrifenedig Saesneg**
Bleddyn 1af (Blwyddyn 3 a 4)
Pearl 2il (Blwyddyn 5 a 6)

**Enillwyr yr E-steddfod**
1af Ysgol Llanfihangel y Creuddyn (147 pwynt)
2il Ysgol Pennal (140 pwynt)
3ydd Ysgol Deganwy (27 pwynt)



MAWRTH AC EBRILL 2025

YSGOL PENNAL

# CYNGERDD PASG



Cawsom Cyngerdd Pasg llwyddiannus iawn yng Nghanolfan Pennal nos Iau olaf y tymor. Bu unigolion fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn canu a llefaru. Cawsom hefyd partion canu o'r ddau ddosbarth.
Diolch i Alex Evans am chwarae'r cello, Alwyn Evans am ganu a Catrin O'Neill am ganu alawon gwerin hefyd yn ystod y noson.
Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Llwyddwyd i godi £639 tuag at brynu offer allanol, beiciau i'r plant bach ag ipads newydd.







# GWASANAETH PASG

Ar ddiwrnod olaf cyn Gwyliau'r Pasg bob blwyddyn mae Mr Rambsbottam yn cynnal Gwasanaeth Pasg yn Eglwys Pennal.
Mae'r disgyblion yn mwynhau'r Stori Pasg yn ystod y Gwasanaeth a chwifio dail palmwydd i'r gan 'Can Hosana'.
Diolch i rhieni a'r gymuned am ymuno efo ni eto eleni i'r Gwasanaeth Pasg.




**MAWRTH AC EBRILL 2025**

# YSGOL PENNAL



## GWAITH RHIF

Rydym ni wedi bod yn gweithio'n galed i wella'n sgiliau cyfrif, gwybod gwerth rhif a gwella gwybod ffeithiau rhif yn gyflym. Rydym ni wedi bod yn cyd-weithio mewn timau i chwarae gemau gweithio'n gorfforol galed i wella'n gallu i wybod faint o ddotiau sydd ar ddis yn gyflym, a chasglu'r nifer gywir o flociau ar ein ffordd. Fel ac a ddwedwyd gan Llewyn, Silyn, Ayda ac Emilia




## ARBRAWF MESUR LLEITHDER




Fel rhan o'n gwaith thema 'Gwreiddiau' rydym wedi bod yn cynnal arbrawf er mwyn darganfod yr amgylchiadau perffaith i dyfu 'cress'. Defnyddiom 'microbits' a 'kitronik' er mwyn mesur lleithder y pridd. Roedd rhaid codio'r 'microbits' yn gywir, a chadw llygad barcud arnynt i wneud yn siŵr eu bod nhw'n hapus pob amser. Mwyhaodd yr arbrawf yn fawr, ac rydym yn edrych ymlaen at gael cynnal mwy o arbrofion tebyg! Diolch yn fawr i Mr Tomi Rowlands am ein cefnogi gyda hyn.